# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 24 AWST 2017 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | N J Davies | A M Day |
| C R Doyle | M Durke | V M Evans |
| E W Fitzgerald | R Francis-Davies | S J Gallagher |
| L S Gibbard | F M Gordon | K M Griffiths |
| J A Hale | D W Helliwell | T J Hennegan |
| C A Holley | O G James | L James |
| M H Jones | P Jones | L R Jones |
| J W Jones | E J King | E T Kirchner |
| M A Langstone | M B Lewis | W G Lewis |
| A S Lewis | C E Lloyd | P Lloyd |
| I E Mann | P M Matthews | H M Morris |
| C L Philpott | S Pritchard | A Pugh |
| J A Raynor | C Richards | K M Roberts |
| B J Rowlands | P B Smith | R V Smith |
| A H Stevens | R C Stewart | D G Sullivan |
| G J Tanner | W G Thomas | M Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | G D Walker | L V Walton |
| T M White | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S E Crouch, J P Curtice, P Downing, C R Evans, W Evans, P R Hood-Williams, B Hopkins, D H Hopkins, S M Jones, R D Lewis, P N May, D Phillips, M Sherwood, M Sykes a/ac L G Thomas

53. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gallai cynghorwyr a swyddogion eu cael mewn eitemau ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd C Richards fudd personol yng Nghofnod 57, “Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor";

2) Datganodd y Cynghorydd J E Burtonshaw fudd personol yng Nghofnod 65 "Cwestiynau'r Cynghorwyr".

54. **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2017 yn amodol ar:

   i) enwau'r Cynghorydd T J Hennegan a'r Cynghorydd E T Kirchner yn cael eu hychwanegu at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol;
   ii) enw'r Cynghorydd E T Kirchner yn cael ei dynnu oddi ar y rhestr ymddiheuriadau;

2) Cyfarfod Cyffredin o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2017 yn amodol ar:

   i) enwau'r Cynghorydd B J Rowlands a'r Cynghorydd W G Thomas yn cael eu hychwanegu at y rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol;
   ii) enw'r Cynghorydd D G Sullivan yn cael ei ychwanegu at y rhestr ymddiheuriadau.

55. **YMATEBION YSGRIFENEDIG I GWESTIYNAU A OFYNNWYD YNG NGHYFARFOD CYFFREDINOL DIWETHAF Y CYNGOR.**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes adroddiad gwybodaeth yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y cyngor.

56. **CYHOEDDIADAU'R AELOD LLYWYDDOL.**

**1) Cydymdeimladau**

**a) Y Cynghorydd Janice Dudley, Maer Castell-nedd Port Talbot**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar sydyn y Cynghorydd Janice Dudley, Maer Castell-nedd Port Talbot. Roedd nifer o gynghorwyr Dinas a Sir Abertawe'n adnabod y Cynghorydd Dudley am ei bod hi'n aelod o Gyd-bwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg.

**b) Ymosodiadau terfysgol a digwyddiadau trychinebus**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at yr ymosodiadau terfysgol yn Barcelona, Sbaen, ar 18 Awst 2017, Cambrils, Sbaen a Turku, y Ffindir ar 19 Awst 2017. Cafodd nifer o bobl eu lladd a'u hanafu yn yr ymosodiadau.

Roedd baneri y tu allan i adeiladau Canolfan Ddinesig y cyngor wedi eu hanner-gostwng.

**c) Jillian Thomas, chwaer y Cynghorydd J P Curtice**

Mynegodd yr Aelod Llywyddol ei dristwch wrth gyfeirio at farwolaeth ddiweddar Jillian Thomas, chwaer y Cynghorydd J P Curtice.

Safodd pawb i ddangos cydymdeimlad a pharch.

**2) Capel y Tabernacl, Treforys**

Datganodd yr Aelod Llywyddol mai'r Tabernacl Treforys oedd un o ddau adeilad rhestredig Gradd 1 yn unig yn Abertawe (Neuadd y Ddinas yw'r llall). Dywedodd fod Tabernacl wedi cyrraedd y rhestr fer fel un o 50 o eglwysi gorau Cymru.

Hon yw'r unig eglwys yn Abertawe sydd yn y gystadleuaeth ac, ar hyn o bryd, hi sydd ar y brig. Mae gan y cyhoedd tan 31 Awst 2017 i bleidleisio. Gallai ennill y gystadleuaeth helpu i gefnogi a hyrwyddo cais Dinas Diwylliant Abertawe.

Dywedodd y dylai pobl sydd am fwrw pleidlais fynd i http://www.sacredwales.org.uk/

**4) Gwobrau Cymdeithas Rheolwyr Argraffu a Chyfathrebu (APCOM) 2017**

Roedd yr Aelod Llywyddol yn falch o gyhoeddi bod DesignPrint, uned argraffu mewnol yr Awdurdod, wedi dilyn ei llwyddiant yng ngwobrau APCOM yn 2016 drwy gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr 'Tîm y Flwyddyn APCOM'. Mae'r gwobrau hyn yn codi proffil DesignPrint ac wedi rhoi hygrededd mewn marchnad gystadleuol, yn enwedig wrth ystyried y gwasanaethau masnachol y mae DesignPrint yn ei gynnig.

Cyflwynir y gwobrau yn y gynhadledd genedlaethol eleni yn Dunchurch, Swydd Warwig ar 21 Medi 2017.

Yn ychwanegol, Anthony Evans, Rheolwr DesignPrint fydd Llywydd APCOM o 2017 i 2019 ar 22 Medi 2017. Anthony fydd y person cyntaf i fod yn Llywydd APCOM am yr ail dro.

Llongyfarchodd Anthony Evans a'r holl staff yn DesignPrint am eu cyflawniad.

**5) Taith feicio i godi arian o dafarn Reverend James, Casllwchwr i Ddulyn**

Dywedodd yr Aelod Llywyddol y byddai Huw Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'i gydweithwyr sy'n feicwyr o glwb beicio Beicwyr Rachel yn beicio o dafarn Reverend James, Casllwchwr i Ddulyn ac yn ôl ym mis Medi 2017.

Byddant yn codi arian er mwyn ariannu cadair olwyn arbenigol ar gyfer plentyn o Gasllwchwr. Gellid rhoddi arian yn

https://www.justgiving.com/crowdfunding/BeicwyrRachel

## 57. CYHOEDDIADAU ARWEINYDD Y CYNGOR.

### 1) Stadiwm Liberty

Darparodd Arweinydd y Cyngor ddiweddariad o ran y trafodaethau cyfredol ynghylch cytundeb newydd ar gyfer y stadiwm.

### 2) Trydaneiddio'r rheilffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn mynd ar drywydd y camau gweithredu a amlinellwyd dan Rybudd o Gynnig y Cyngor ar 27 Gorffennaf 2017.

### 3) Datblygiad Mynydd Cilfái

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi cwrdd â dirprwyaeth o Seland Newydd ynghylch datblygiad ar Fynydd Cilfái. Roedd yn obeithiol y byddai hyn yn arwain at fuddsoddiad yn y dyfodol.

## 58. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Gofynnwyd sawl cwestiwn gan aelodau'r cyhoedd. Ymatebodd Aelod perthnasol y Cabinet yn briodol. Nid oedd angen ymateb ysgrifenedig ar y cwestiynau atodol.

## 59. CYFLWYNIAD CYHOEDDUS - DIM.

Ni dderbyniwyd cyflwyniadau cyhoeddus.

## 60. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2017/22.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes adroddiad a oedd yn ceisio cyhoeddi Cynllun Corfforaethol a oedd yn cynnwys amcanion lles y cyngor yn unol â'r gofynion a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r canllawiau statudol ynghylch cyrff cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

1) Mabwysiadu cynllun corfforaethol 2017-2022.

**Sylwer:** Gofynnodd y Cynghorydd J W Jones y cwestiwn canlynol:

*i)* *"Tudalen 63, y pedwerydd pwynt bwled o'r gwaelod. Ydych chi'n gallu esbonio "Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn Abertawe mewn tlodi incwm; ond ar gyfer y rhai mewn tlodi, mae lles yn isel?"*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes y darperir ymateb ysgrifenedig.

## 61. CÔD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn darparu'r Côd Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig sy'n caniatáu i'r cyngor gymeradwyo'r Côd diwygiedig sy'n seiliedig ar faterion fframwaith Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE) 2016-2017 ymlaen.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo'r Côd Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig.

## 62. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2016/17.

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cyflwyno adolygiad blynyddol drefniadau llywodraethu 2016-2017 i'w cymeradwyo ac i ddarparu copïau o'r ddau lythyr sylwadau a ddychwelwyd i Swyddfa Archwilio Cymru a gwblhawyd gan y rhai â chyfrifoldeb dros lywodraethu a rheoli Dinas a Sir Abertawe a Chronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe er gwybodaeth.

**PENDERFYNWYD:**

1) Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016-2017 a nodi'r Llythyrau Sylwadau.

## 63. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD 19 MAI 2016 - 24 MAI 2017.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad gwybodaeth a oedd yn darparu Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer y cyfnod o 19 Mai 2016 i 24 Mai 2017. Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith y pwyllgor yn ystod y cyfnod hwnnw.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 64. AELODAETH PWYLLGORAU.

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau a Gweithrediadau Busnes fod adroddiad diwygiedig wedi'i ddosbarthu.

Cyfeiriodd at yr adroddiad gan nodi bod Arweinydd y Cyngor hefyd wedi gwneud y newidiadau canlynol i gyrff allanol yr awdurdod:

**1) Cyngor Iechyd Cymunedol PABM**
Tynnu enw'r Cynghorydd M C Child.
Ychwanegu'r Cynghorydd M Sykes.

**PENDERFYNWYD** diwygio aelodaeth cyrff y cyngor a restrir isod fel a ganlyn:

**1) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Economaidd ac Isadeiledd**
Tynnu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.
Ychwanegu'r Cynghorydd A Pugh.

**2) Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi - Addysg a Sgiliau**
Tynnu enw'r Cynghorydd C L Philpott.

**3) Pwyllgor Cynllunio**
Tynnu enw'r Cynghorydd E J King.
Ychwanegu'r Cynghorydd C Anderson.

**4) Bwrdd Magu Plant Corfforaethol**
Tynnu enw'r Cynghorydd E T Kirchner.
Ychwanegu'r Cynghorydd A Pugh.

## 65. CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR.

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd wyth (8) 'Cwestiwn Atodol' Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Roedd ymateb ysgrifenedig yn ofynnol ar gyfer y cwestiwn/cwestiynau atodol canlynol.

**Cwestiwn 7**

**a)** Gofynnodd y Cynghorydd P M Black y canlynol:

*i) "A all Aelod y Cabinet ddarparu'r ffigyrau ar gyfer 2016-2017?"*

Nododd Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) 'Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd dau (3) 'gwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 6.01 pm

**CADEIRYDD**